# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## CC(3)-13-08 (p1)

### Ymchwiliad Cymunedau A Diwylliant: Cam-Drin Yn Y Cartref

### Tystiolaeth Ysgrifenedig A Gyflwynwyd Gan Wasanaeth Erlyn Y Goron Yng Nghymru

### 1. Pwrpas

Cyflwynir y papur hwn i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant fel ymateb i'r cais bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 3ydd Gorffennaf 2008. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr a thystion trais yn y cartref yn y system cyfiawnder troseddol, ac i ymateb yn unigol a gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r broblem cam-drin yn y cartref yng Nghymru.

### 2. Y Cefndir

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru yn cynnwys pedair ardal, sef Dyfed Powys, Gwent, y Gogledd a'r De. Mae'r rhain yn ffurfio Grŵp Cymru.  Rydym yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros erlyn yr holl achosion y cyfeirir atom gan y pedwar heddlu yng Nghymru. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am yr holl achosion Cam-drin yn y Cartref yng Nghymru ac i'w herlyn yn effeithiol. Lluniwyd y polisi a'r cyfarwyddyd cynhwysfawr cyntaf gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar Drais yn y Cartref yn 2001 i fynd i'r afael â'r gyfradd uchel o fethu ag erlyn achosion Cam-drin yn y Cartref o'i gymharu â throseddau eraill.

Dros y tair blynedd diwethaf (2005-2008), mae ein rhaglen wedi canolbwyntio ar y pum maes a ddisgrifir isod: Meithrin gallu a hyder; monitro a rheoli perfformiad; codi ymwybyddiaeth; gwella'r gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr a thystion trais yn y cartref; datblygu gweithio mewn partneriaeth; a chynnwys cymunedau a rhoi sylw i amrywiaeth.

### 4. Meithrin gallu a chymhwysedd

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru wedi rhoi rhaglen hyfforddi genedlaethol ar waith ar gyfer ei holl erlynwyr a gweithwyr achos sy'n erlyn achosion Cam-drin yn y Cartref, ac maent wedi darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer erlynwyr sy'n gweithio yn Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref. Mae Cydlynydd Trais yn y Cartref ym mhob ardal yng Nghymru ac mae ei swyddogaeth yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant; cynghori cydweithwyr ar faterion polisi; cefnogi rheoli perfformiad; a rhoi'r canllaw arfer da ar waith. Cynhaliwyd archwiliad blynyddol o arfer da wrth erlyn achosion Trais yn y Cartref ledled pedwar ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru (fel a wnaethpwyd yn Lloegr) a gwnaethpwyd argymhellion i bob ardal ar gyfer eu Cynlluniau Busnes.

### 5. Monitro, rheoli ac adrodd ar Berfformiad

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi llunio fframwaith rheoli perfformiad manwl i fesur canlyniadau yn erbyn targedau'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus.  Ers 2004-05, mae nifer y canlyniadau aflwyddiannus mewn achosion trais yn y cartref wedi disgyn yn sylweddol, ochr yn ochr â lleihad yn nifer yr achosion y rhoddwyd gorau iddynt gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac achosion lle y defnyddiwyd rhwymiad. Mae "rhwymo" yn ffordd o gwblhau achos. Nid yw'n euogfarn ond yn hytrach mae'n ddull ataliol i sicrhau bod person yn "cadw'r heddwch" yn y dyfodol a bydd yn ymrwymedig i dalu swm o arian os nad yw'n gwneud hynny.

### Dyfed Powys

| Cyfnod Amser | Nifer Trais yn y Cartref | % llwyddiannus | % aflwyddiannus | % rhoi'r gorau iddynt | rhwymo |
|---|---|---|---|---|---|
| 2004 - 05 | 240 | 59% | 41% | 28% | 4% |
| 2005 - 06 | 353 | 62% | 38% | 28% | 3% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2006 - 07 | 421 | 73% | 27% | 16% | 2% |
| 2007 - 08 | 432 | 81% | 19% | 9% | 1% |

**Gwent**

| Cyfnod Amser | Nifer Trais yn y Cartref | % llwyddiannus | % aflwyddiannus | % rhoi'r gorau iddynt | rhwymo |
|---|---|---|---|---|---|
| 2004 - 05 | 451 | 60% | 40% | 31% | 3% |
| 2005 - 06 | 558 | 61% | 39% | 31% | 4% |
| 2006 - 07 | 661 | 66% | 34% | 25% | 3% |
| 2007 - 08 | 820 | 70% | 30% | 20% | 3% |

**Gogledd Cymru**

| Cyfnod Amser | Nifer Trais yn y Cartref | % llwyddiannus | % aflwyddiannus | % rhoi'r gorau iddynt | rhwymo |
|---|---|---|---|---|---|
| 2004 - 05 | 442 | 68% | 32% | 25% | 0% |
| 2005 - 06 | 738 | 69% | 31% | 21% | 0% |
| 2006 - 07 | 865 | 72% | 28% | 22% | 0% |
| 2007 - 08 | 925 | 77% | 23% | 17% | 1% |

**De Cymru**

| Cyfnod Amser | Nifer Trais yn y Cartref | % llwyddiannus | % aflwyddiannus | % rhoi'r gorau iddynt | rhwymo |
|---|---|---|---|---|---|
| 2004 - 05 | 1198 | 53% | 47% | 37% | 6% |
| 2005 - 06 | 1344 | 53% | 47% | 36% | 7% |
| 2006 - 07 | 1506 | 65% | 35% | 26% | 5% |
| 2007 - 08 | 1744 | 66% | 34% | 24% | 2% |

**Cymru**

| Cyfnod Amser | Nifer Trais yn y Cartref | % llwyddiannus | % aflwyddiannus | %<br>rhoi'r gorau iddynt | rhwymo |
|---|---|---|---|---|---|
| 2004 - 05 | 2331 | 58% | 42% | 32% | 4% |
| 2005 - 06 | 2993 | 60% | 40% | 31% | 4% |
| 2006 - 07 | 3453 | 68% | 32% | 24% | 3% |
| 2007 - 08 | 3921 | 71% | 29% | 20% | 2% |

Mae'r lleihad yn nifer yr erlyniadau aflwyddiannus yn welliant sylweddol ochr yn ochr â chynnydd yn nifer yr erlyniadau. C

yflwynwyd gwell systemau monitro electronig ym mis Ebrill 2007 i gasglu gwybodaeth megis datgyffesiadau gan ddioddefwyr, gwybodaeth am y berthynas, a chefnogaeth i ddioddefwyr a ddarperir gan asiantaethau arbenigol. Mae casglu data o'r fath yn ein caniatáu i greu gwell darlun o berfformiad ac i nodi lle mae bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth.

M

ae rhai ardaloedd yng Nghymru wedi rhagori ar y targed cenedlaethol ledled Cymru a Lloegr ar gyfer Erlyniadau Trais yn y Cartref llwyddiannus, sy'n 70 y cant. Yn ail chwarter 2007-2008 llwyddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron Dyfed Powys i gyflawni 83 y cant o Erlyniadau Trais yn y Cartref yn llwyddiannus.

### 6. Codi Ymwybyddiaeth

E

rs 2005, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cynnal amrywiaeth eang o gynlluniau codi ymwybyddiaeth yng Nghymru mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (e.e. yn y De gydag Uned Diogelwch Menywod, Canolfan Gyfeirio Troseddau Rhyw a'r Gwasanaeth Llysoedd). Mae'r rhain wedi cynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd strategol a gweithredol lleol a Chymru gyfan ar Drais yn y Cartref. Caiff cylchlythyr Trais yn y Cartref ei gyhoeddi'n rheolaidd ar gyfer holl staff Gwasanaeth Erlyn y Goron. A chydnabod y gallai llawer o'i staff ei hun fod yn dioddef Cam-drin yn y Cartref, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyhoeddi llawlyfr ar gyfer ei weithwyr ar ei Bolisi Trais yn y Cartref.

### 7. Gwella gwasanaethau i ddioddefwyr a thystion trais yn y cartref

M

ae'r safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob dioddefwr wedi'u cynnwys yn y Gofynion Sylfaenol 'Dim Tyst, Dim Cyfiawnder', yn y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, ac yn Addewid yr Erlynwyr.

M

ae Unedau Gofal Tystion Aml-asiantaeth wedi'u sefydlu ym mhob ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mewn achosion trais yn y cartref, rhaid i Swyddogion Gofal Tystion sicrhau bod un pwynt cyswllt yn rhoi cefnogaeth wedi'i theilwra i ddioddefwyr a thystion o'r pwynt cyhuddo hyd nes y daw'r achos i ben pan gânt eu cyfeirio at asiantaethau gwirfoddol megis y gwasanaeth gwell i dystion a'r Cynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref. Cynigir gwasanaeth dwyieithog mewn llawer o Unedau Gofal Tystion.

P

ennwyd Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref newydd ym mis Ebrill 2008. Bellach, mae 8 o'r rhain i gael yng Nghymru gyda chefnogaeth gysylltiedig i ddioddefwyr drwy Gynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol a Chynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaeth. Roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron ar flaen y gad wrth ddatblygu Llysoedd Arbennig Trais yn y Cartref hyn gan eu bod wedi trefnu gwerthusiadau annibynnol o'r pum llys arbennig cyntaf a dau beilot yn 2004. Cynhaliwyd un o'r cynlluniau peilot cyntaf yng Nghymru a Lloegr yng Nghaerffili.

Y

n 2007-08, cynhaliwyd adolygiad gan Wasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r 23 system llys arbennig trais yn y cartref yng Nghymru a Lloegr. Roedd yr adroddiad ('Justice with Safety'), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2008, yn dangos yn glir bod y Llysoedd Arbennig hyn wedi cyfrannu at wella cyfiawnder a diogelwch i ddioddefwyr trais yn y cartref.

C

aiff Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru eu hannog i weithio mewn partneriaeth â'r Cynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol a gwasanaethau arbenigol lleol, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio gyda chymunedau lleiafrifol megis BAWSO, er mwyn gwneud yn siŵr bod dioddefwyr yn cael y gefnogaeth briodol.

Anogir erlynwyr i hwyluso achosion Trais yn y Cartref cyn ac ar ôl cyhuddo er mwyn sicrhau bod y dioddefwr a'r tyst yn wynebu cyn lleied o risg â phosibl. Cyn y caiff cyhuddiad ei awdurdodi, bydd Erlynwyr yn nodi achosion lle bydd ceisiadau am fesurau arbennig neu gymeriad drwg yn mynd i fod yn berthnasol ac yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi'r ceisiadau hyn. Gallant droi at y Cynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref (os oes un) i geisio osgoi datgyffesiadau.

Os yw'r dioddefwr yn datgan nad yw'n dymuno mynd i'r Llys neu nad yw'n dymuno i'r achos fynd yn ei flaen, byddwn yn gofyn am gael datganiadau tynnu'n ôl manwl, yn ddelfrydol gan swyddogion hyfforddedig o'r Uned Cam-drin yn y Cartref (yn y De) neu gan swyddogion Trais yn y Cartref rhanbarthol os nad oes uned arbenigol trais yn y cartref yn bodoli, cyn cynnal unrhyw arolwg i weld a ydym am fwrw ymlaen â'r erlyniad.

Ar ôl inni dderbyn y datganiad, dylai erlynydd hyfforddedig a phrofiadol adolygu'r ffeil ac ystyried, yn gyntaf, a allwn brofi'r achos heb dystiolaeth y dioddefwr, yn ail, a allwn wneud cais i ddarllen datganiad y dioddefwr yn y Llys heb iddynt orfod bod yn bresennol, ac yn olaf, a yw'n briodol i gyhoeddi gwŷs i dystio er mwyn mynnu bod y dioddefwr yn bresennol. Wrth benderfynu a ddylid gofyn am wŷs i dystio ai peidio, bydd yr erlynydd yn pwyso a mesur y canllawiau ar Erlyn Achosion Trais yn y Cartref. Yn y Gogledd, mae pob erlynydd yn arbenigwr ac yn adolygu'r holl dreialon trais yn y cartref a phob datgyffesiad. Yng ngweddill Cymru, lle nad yw pob erlynydd yn cael ei ystyried yn arbenigwr trais yn y cartref, rhaid iddynt gael caniatâd eu rheolwr cyn rhoi'r gorau i achos neu gynnig dim tystiolaeth mewn achosion Trais yn y Cartref.

### 8. Datblygu gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio'n aml-asiantaethol yn rhan allweddol o waith trais yn y cartref Gwasanaeth Erlyn y Goron. Yn genedlaethol, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth yn yr Rhith-uned Trais yn y Cartref, sy'n adrodd i Grŵp y Gweinidogion. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi a phanel arbenigol ym maes monitro, adolygu a datblygu'r Rhaglen Llys Arbennig Trais yn y Cartref.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru yn edrych ymlaen at weithio'n agosach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn.

Mae Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd rhan mewn Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a fforymau trais yn y cartref y Partneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn. Mae Cydlynwyr Trais yn y Cartref wedi llunio protocolau gyda phartneriaid lleol i nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau pob asiantaeth a rhannu gwybodaeth. Llofnodwyd Protocol De Cymru yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2005 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ddiweddaru gan yr holl asiantaethau. Yn yr ardaloedd eraill, caiff y wybodaeth ei rhannu gyda Phencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron fel rhan o'r Data Arbenigol Trais yn y Cartref yn hytrach na thrwy brotocol.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydnabod bod angen i'r systemau cyfiawnder troseddol a theulu weithio ar y cyd ar achosion sy'n croesi'r ddwy awdurdodaeth. Cychwynnwyd gwaith ar rannu gwybodaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron a arweiniodd at gyhoeddi Related Family and Criminal Proceedings: A Good Practice Guide (Cymdeithas y Cyfreithwyr: 2007). Yn y Gogledd, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cytuno ar brotocol rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Barnwr Llywyddol (Llys Teulu) ar ddatgelu gwybodaeth mewn achosion sifil.

Yn y De, mae'r Erlynwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd ag Uned Cam-drin yn y Cartref yr Heddlu a'r Uned Diogelwch Menywod pan maent yn delio gydag achosion Trais yn y Cartref. Mae swyddogion o'r Uned Cam-drin yn y Cartref yn gallu darparu gwybodaeth inni megis hanes unrhyw drais, lefel risg y dioddefwr, a yw'r dioddefwr wedi bod yn destun Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth, ac a oes angen mesurau arbennig ar y dioddefwr. Maent hefyd yn gallu gwneud datganiadau mesurau arbennig a thynnu'n ôl manwl, yn enwedig os ystyrir bod y dioddefwr mewn risg uchel iawn. Mewn rhannau eraill o Gymru, oherwydd y natur wledig, ni ellir cael gweithdrefn ganolog ond mae'r ardaloedd yn ddi-oed wedi rhoi arferion da ar waith y gellir eu mabwysiadu - er enghraifft yn y Gogledd, yn Wrecsam, cynhelir cyfarfod wythnosol gyda'r Cynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref cyn bod y Llys Arbennig Trais yn y Cartref yn eistedd er mwyn sicrhau bod gan Wasanaeth Erlyn y Goron y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi rhannu ei arbenigedd gyda chydweithwyr sy'n gweithio yn y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau

Rhyw yng Nghymru ac maent wedi rhoi cyngor am gadw a chyflwyno tystiolaeth ar gyfer unrhyw drosedd. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn edrych ymlaen at agor y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhyw yng Nghaerdydd (mae aelod o staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eistedd ar y pwyllgor gweithredol) ac at ymestyn y rhwydwaith yn raddol ledled Cymru (e.e. mae Canolfan Bae Colwyn ar fin agor ym mis Medi 2008). Mae Erlynwyr wedi cael hyfforddiant ar waith y Canolfannau ac ar sut i gysylltu â Chynghorwyr Trais yn y Cartref.

### 9. Cynnwys cymunedau a rhoi sylw i amrywiaeth

M

ae gofyn bod gan Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron raglen i ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes trais yn y cartref.  Mae'r Ardaloedd wedi cael eu hasesu ar y gwaith hwn yn yr archwiliad blynyddol.  Dangosodd y cyfweliadau gyda'r Cydlynwyr Trais yn y Cartref fod Ardaloedd wedi gwella, neu o leiaf wedi cynnal, eu hymgysylltiad â'r gymuned yn 2007-08 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Mae pob Ardal yng Nghymru wedi sefydlu 'Panel Craffu ar Droseddau Casineb' a fydd yn pwyso a mesur achosion Trais yn y Cartref a Erlynwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ymysg Troseddau Casineb eraill (er bod rhai paneli yn edrych ar Droseddau Casineb fesul thema ac nid ydynt wedi rhoi sylw i Drais yn y Cartref eto). Yng nghyfarfod cyntaf y panel, dysgwyd gwersi a rhoddwyd argymhellion gwerthfawr i Wasanaeth Erlyn y Goron er mwyn gwella'r gyfradd llwyddiant a chael gwell ymgysylltiad â'r dioddefwr drwy gydol y broses.

Y

n ddiweddar, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd yn 2007-08, cyhoeddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron gynlluniau gweithredu a Strategaeth Trais yn erbyn Menywod. Nod y prosiect yw sicrhau cydlyniant strategol, symleiddio ac erlyn amrywiaeth o droseddau yn well (gan gynnwys trais yn y cartref, a throseddau anrhydedd a phriodi dan orfod) a gyflawnir gan ddynion yn erbyn menywod yn bennaf yng nghyd-destun pŵer a rheolaeth.

B

yddai Prif Erlynwyr y Goron yng Nghymru yn croesawu'r cyfle i ymhelaethu ar y cyflwyniad ysgrifenedig hwn drwy gyflwyno tystiolaeth gerbron y pwyllgor. Byddai Gwasanaeth Erlyn y Goron yn barod i gyflwyno unrhyw ddata sydd ganddo er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn yr ymchwiliad hwn.

### 10. Crynodeb

M

ae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydnabod bod arferion yn amrywio ledled Cymru yn ôl amodau lleol, megis agwedd y Partneriaethau Troseddau a Diogelwch, faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau mewn partneriaeth a natur wledig yr ardal.  Mae pedair ardal Cymru'n rhannu arferion da ac yn ddiweddar penodwyd uwch-dwrnai fel pwynt canolog ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru / Grŵp Cymru ar Drais yn y Cartref. Mae gan bob ardal gydlynydd trais yn y cartref ac maent yn rhwydweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau ffocws. Mae cefnogaeth cydlynwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol yn cael effaith uniongyrchol ar effeithlonrwydd ein perfformiad, ac mae’n ein galluogi i symud ymlaen ag achosion anodd drwy gysylltiad ac ymrwymiad aml-asiantaethol.

C J Woolley
Cadeirydd Cymru / Grŵp Erlyn y Goron Cymru